**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd**
**Dydd Iau 17 Ionawr 2019, 11:30 – 12:30 pm**
**Ystafell A, Neuadd y Ddinas**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol** | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Y Cynghorydd Huw Thomas **(Cadeirydd)** | Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) |
| Maria Battle (**Is-gadeirydd**) | Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, (BIP Caerdydd a'r Fro) |
| Paul Orders | Prif Weithredwr, CC |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC |
| Abigail Harris | Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Len Richards | Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| Sheila Hendrickson-Brown | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| Dai Bents | Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) |
| Hannah Williams | Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Mark Brace | Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu |
| Stephen Jones | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| Jo Salway | Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru |
| Victoria Harris | Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Sharon Hopkins | Dirprwy Brif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Huw Jakeway | Prif Swyddog Tân, GTADC |
| Helen Ryder | Llywodraethwr, Carchar EM Caerdydd |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Gareth Newell | Rheolwr Polisi, Partneriaethau ac Ymchwil, CC |
| Nathan Swain | Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |
| Sian Sanders | Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, CC |
| Tim Gordon | Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol |
| Steve Jones | Uwch-arolygydd Cymru Gyfan ar gyfer Brexit |

| | | |
|---|---|---|
| **Rhif 1.** | **Eitem Agenda**<br><br>**Croeso a Chyflwyniadau**<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod gan amlinellu pwrpas y cyfarfod wedi dim cytuno ar gytundeb Brexit. | |
| | **Effaith Brexit 'heb gytundeb'**<br><br>Gwahoddwyd pob sefydliad oedd yn cael ei gynrychioli ar y BGC i roi trosolwg o'i gynlluniau i baratoi ar gyfer Brexit ac unrhyw oblygiadau diffyg cytundeb.<br><br>Y materion allweddol a amlygwyd ar draws y bartneriaeth oedd:<br>• Goblygiadau gweithlu a chynllun preswylio'n sefydlog yr UE<br>• Argyfyngau sifil, parhad busnes a rheoli argyfyngau<br>• Cydlyniant cymunedol<br>• Rheoli cyflenwadau (yn enwedig cyflenwadau meddygol a bwyd)<br>• Diogelwch data<br>• Trosglwyddo pwerau deddfwriaethol<br>• Rheoli a chysondeb cyfathrebu<br><br>Cafwyd trafodaeth ar barodrwydd y sector preifat yng Nghaerdydd, yn enwedig mewn meysydd allweddol fel darparwyr Gofal Cartref. Mae CLlLC yn profi dibyniaeth ar wladolion UE, ond mae ymarferion gwydnwch mwy cyffredinol yn cael eu gadael yn nwylo busnesau unigol.<br><br>Darparwyd manylion amlinellol y cynllun Preswylio'n Sefydlog, gan gynnwys cyfleoedd i wasanaethau cymorth ymgeisio am grantiau gan y Swyddfa Gartref.<br><br>Nodwyd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal asesiad o effaith ar wasanaethau ledled Cymru. Nid yw'r manylion wedi cael eu cyhoeddi ac maent gyda Gweinidog Iechyd Cymru ar hyn o bryd.<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>• Darparu cyfathrebiadau cyson a chydlynus ar draws y sector cyhoeddus. Gan nodi y gall sefyllfa Cymru gyfan fod yn wahanol i'r gofyniad ar gyfer Caerdydd.<br>• Ystyried y goblygiadau i'r Sector Gofal yn flaenoriaeth. Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gydweithio i sicrhau parhad gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed. | **Pawb**<br><br>**Sarah McGill/ BIP Caerdydd a'r Fro** |

| | | |
|---|---|---|
| | • Ystyried a phrofi cyflenwadau bwyd i bobl sy'n agored i niwed fel maes blaenoriaeth (yn enwedig mewn ysbytai, darpariaeth gofal, ysgolion a gwasanaeth carchardai)<br>• Annog pob darparwr ac is-gontractwr i gynnal asesiadau parhad busnes cadarn<br>• Rhannu manylion y Cynllun Preswylio'n Sefydlog, statws trigolion yr UE a chyfleoedd arian grant gydag aelodau'r BGC<br>• Aelodau'r BGC i hyrwyddo a dosbarthu gwybodaeth am y Cynllun Preswylio'n Sefydlog ar draws y gweithlu<br>• Gwahodd aelodau'r BGC i fynychu cyfarfodydd Ymateb i Brexit bob pythefnos y Cyngor, wedi'u cadeirio gan Brif Weithredwr Cyngor Caerdydd. Aelodau'r BGC i fynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen.<br>• Y BGC i ailymgynnull mewn ymateb i ddatblygiadau sylweddol ym mhroses Brexit sydd angen ymateb lleol. | **Pawb**<br><br>**Pawb**<br><br>**Sian Sanders**<br><br>**Pawb**<br><br>**Pawb**<br><br>**Paul Orders** |
| **3.** | **Diwedd**<br><br>Daeth y cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ystyried datganiad i'r wasg gan y BGC ar Brexit.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Cytuno ar y datganiad yn amodol ar ddiwygiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod.<br>• Tîm cyfryngau'r Cyngor i gyhoeddi'r datganiad terfynol, gyda dolen yn cael ei rhannu â phob aelod o'r BGC. | <br><br><br><br><br>**Tim Gordon** |